CROESO I

FEDDYGFA STRATHMORE

26/28 Ffordd Caer
Wrecsam
LL11 2SA
Ffôn: 01978 352055
Ffacs: 01978 310689

Rhif Ffôn Argyfwng
01978 350791 (yn ystod oriau'r feddygfa yn unig)

www.strathmoremedicalpractice.org.uk

CYFLWYNIAD

Mae'r feddygfa'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau mewnol gyda mynediad gwell i'r anabl trwy ramp allanol a lifft i ystafelloedd aros ar y llawr cyntaf. I'r sawl â phroblemau clyw, mae gennym system cyswllt clyw cludadwy ar gael. Mae gennym 9 meddyg llawn amser a rhan amser yn gofalu am dros 14,000 o gleifion.

Daeth y feddygfa'n feddygfa addysgu ers mis Medi 2003 i fyfyrwyr meddygol blwyddyn olaf o Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru a fydd ar leoliad 6 wythnos o dan oruchwyliaeth ein meddygon teulu. Gall cleifion wrthod i fyfyriwr fod yn bresennol yn ystod eu hymgynghoriad os dymunent.

Lleolir y Feddygfa ger canol y dref ar un o'r prif lwybrau bysus ac mae o fewn pellter cerdded i nifer o'r cleifion. Mae map yn dangos ffiniau'r feddygfa ar glawr cefn y llyfryn hwn.

EIN GWASANAETH I CHI

Rydym yn dîm cyfeillgar o weithwyr proffesiynol sy'n anelu i ofalu amdanoch chi ac anghenion iechyd eich teulu. Mae'r holl staff wedi eu hyfforddi i roi eich anghenion chi gyntaf, felly os byddwch yn bryderus neu'n ansicr, gofynnwch a byddwn yn hapus i helpu.

Rydym yn cynnig gwasanaeth cyfeillgar o fewn cyrraedd i bobl. Mae'r egwyddorion a fabwysiadwyd gennym yn adlewyrchu eu hunain yn y gofal, cwrteisi ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Fel rhan o'r cynlluniau i wella'r gwasanaeth i chi, rydym wedi llunio'r llyfryn hwn a gwefan i'ch hysbysu am y wefan a sut i ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gennym. Rydym yn ceisio eu diweddaru ond bydd yna newidiadau o hyd a fydd yn cael eu cynnwys mewn rhifynnau diweddarach. Mae'r llyfryn ar gael mewn print bras. Mae cyfieithiad Cymraeg ar gael ar gais. Mae fersiwn clyw ar gael yn Saesneg hefyd.

POLISI DIM GODDEFGARWCH

Mae'r Feddygfa'n gweithredu polisi dim goddefgarwch ble bydd unrhyw glaf sy'n dreisgar neu'n ymosodol ar lafar wrth unrhyw aelod o dîm y feddygfa yn cael ei dynnu oddi ar restr y feddygfa.

EICH MEDDYGON YW:

DR. CAROL A V OLIVER
MBChB DRCOG. Cymhwysodd ym 1981 St Andrews a Manceinion

DR. CHRISTOPHER D SHAW
MBChB Cymhwysodd ym 1985 yng Nghaeredin

DR. MARGARET J VLIES
MBBS DRCOG MRCGP Cymhwysodd ym 1975 yn Guys Llundain
Dip. Epilepsi (Lerpwl)

DR. EDWARD H HENDRY
MBChB MRCS Cymhwysodd ym 1995 yn Lerpwl

DR. ALAN MASON
MBChB Cymhwysodd ym 1969 yn Lerpwl

DR. ABU BAKER
MBBS Cymhwysodd 1975 Mysore, DPD (Caerdydd)

DR. PETER DAWSON
MBChB Cymhwysodd 2000 St Andrews a Manceinion

DR. HELEN GOWLAND
MBChB Cymhwysodd 2002 Manceinion

DR. LLINOS G ROBERTS
MBBCh MRCP MRCGP DFFP
(Cytundeb MT tan Chwefror 2009)

(Nid yw'r uchod yn ffurfio partneriaeth gyfyngedig)

Y TÎM GOFAL IECHYD CYCHWYNNOL

Ymarferydd Nyrsio – LYNNE HUGHES RN BSc (Anrh)
Bydd y meini prawf ar gyfer ymgynghori gyda Nyrs y Feddygfa yn cael ei arddangos yn ystafell aros y feddygfa ac ar wefan y feddygfa.

Mae fflebotomydd ar gael bob bore ar gyfer samplau gwaed ar gais y meddyg teulu a thrwy apwyntiad yn unig.

Nyrsys y Feddygfa

Mae gennym dîm hynod gymwys o Nyrsys Meddygfa sydd ar gael dydd Llun i ddydd Gwener. Gallwch drefnu apwyntiad yn y dderbynfa ar gyfer unrhyw un o'r materion a restrwyd isod.

Cymorth cyntaf mân anafiadau	Gwirio pwysau gwaed	Profion gwaed
Tynnu pwythau	Gwirio colesterol	Brechlynnau arferol
Monitro pwysau	Cynllunio teulu	Prawf ECG
Archwiliad iechyd claf newydd	Rhwymynnau briwiau	Profion taeniad
Monitro CHD/COPD	Monitro Asthma	Chwistrellu'r clustiau
Cyngor ffordd o fyw iach	Monitro Diabetes	Monitro Epilepsi
Cyngor Teithio/Brechlynnau	Monitro Thyroid	Rhoi'r gorau i ysmygu
Archwiliad iechyd pobl dros 75 oed		

NYRSYS Y FEDDYGFA YW:

PRIF NYRS CUNNIFFE S.R.N
PRIF NYRS BECKY MCNAY R.G.N
PRIF NYRS SUE DAULBY R.G.N
PRIF NYRS JOANNE WHITBY RN BSc (ANRH)
PRIF NYRS TERRY BELLIS RGN BSc (ANRH)
NYRS ANNE SELWYN-SMITH R.G.N
MRS JUNE ROBERTS (Cynorthwy-ydd Gofal Iechyd)
MRS BARBARA WILLIAMS (FFLEBOTOMYDD)
MRS ANDREA GRIFFITHS (FFLEBOTOMYDD)

RHEOLI'R FEDDYGFA

Rheolwr y Feddygfa: Mr Alan Courtenay
Rheolwr Cyllid: Mrs S Hatherall
Rheolwr y Dderbynfa: Mrs C Davies

Y Croesawyr ac Ysgrifenyddesau

Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant ac mae nifer ohonynt yn brofiadol iawn ac yn gallu ateb llawer o'ch ymholiadau.
Gall eglurhad byr o'ch problem eu galluogi i awgrymu'r person iawn i roi cyngor neu i gynnig yr apwyntiad mwyaf addas i chi.

Staff cyswllt sydd ar gael yn y Feddygfa

YMWELWYR IECHYD
- **Mae Jackie Williams yn gysylltiedig â Strathmore ac yn cynnal Clinigau Babanod rheolaidd yn y Feddygfa – ar gael trwy ffonio 290968.**

NYRSYS ARDAL
- **Tîm o Nyrsys Ardal wedi eu neilltuo i gleifion Strathmore – ar gael trwy ffonio 263006**

BYDWRAIG Y GYMUNED
- **Ymweld â'r Feddygfa dwywaith yr wythnos i gynorthwyo gyda'r Clinig Cyn-geni**

DIETEGYDD
- **Un o'r Dietegwyr yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn ymweld â'r feddygfa unwaith y mis.**

HOLL STAFF WEDI YMRWYMO I REOLAU CYFRINACHEDD

Cynhelir cofnodion meddygol yn gwbl gyfrinachol. Ni throsglwyddir gwybodaeth heb eich caniatâd oni bai ei fod o fewn cyfyngiadau'r GIG, trwy fframwaith cyfreithiol, neu er lles y cyhoedd. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o ddata cleifion dienw yn cael ei rannu ar gyfer iechyd y cyhoedd ac archwiliad, ymchwil, dysgu a hyfforddi.

SUT MAE'R FEDDYGFA'N GWEITHIO

Cofrestru
Dylai cleifion sy'n dymuno cofrestru gyda'r feddygfa holi yn y dderbynfa.

Bydd cleifion cofrestredig 16 – 74 oed sydd heb eu gweld ers tair blynedd yn derbyn gwahoddiad i weld Nyrs y Feddygfa ar gyfer archwiliad iechyd arferol. Rydym yn cynnig archwiliad iechyd arferol i gleifion dros 75 oed hefyd sydd heb eu gweld ers blwyddyn.

System Ffôn y Feddygfa – 352055
Mae gan y Feddygfa 11 llinell ffôn sy'n cysylltu â'r gwasanaeth neges Awto-Fynychu. Byddwch yn derbyn neges i'ch croesawu gydag opsiynau i ddilyn a fydd yn eich cyfeirio i'r adran gywir yn y feddygfa. Byddwch yn cael eich rhoi mewn system ciwio ac atebir gynted ag y bydd croesawydd ar gael. Byddwch yn amyneddgar gan y gall y croesawyr ond ateb un galwad ar y tro.

System Apwyntiadau
Rydym yn cynnal System Apwyntiadau ar gyfrifiadur.
Ffoniwch 352055 rhwng 8am a 6.30pm dydd Llun – dydd Gwener.
Trefnir apwyntiadau arferol am 10 munud fel arfer ac maent ar gael 6 wythnos ymlaen llaw.

Os na fydd yn bosibl cynnig apwyntiad i chi gyda'r Meddyg o'ch dewis, byddwn yn hapus i geisio trefnu apwyntiad cynt gyda Meddyg arall. Dylid trefnu apwyntiadau arferol ble bydd hynny'n bosibl digon ymlaen llaw; bydd hyn yn aml yn sicrhau eich bod yn gweld y meddyg o'ch dewis.
Gall cleifion weld, trefnu a chanslo apwyntiadau ar lein, trwy gyswllt ar wefan y feddygfa. (Gellir gwrthod mynediad i unrhyw glaf a ganfyddir sy'n camddefnyddio'r cyfleuster ar lein).

Os na fyddwch yn gallu cadw apwyntiad, hysbyswch y croesawydd gynted â phosibl fel y gellir cynnig yr apwyntiad i glaf arall os gwelwch yn dda.

Apwyntiadau Brys
Gall cleifion sydd angen apwyntiad yr un diwrnod ble nad yw eu cyflwr yn cael ei ystyried yn un meddygol brys gael cynnig ymgynghoriad gyda'r Ymarferydd Nyrsio. Gall eglurhad byr o'r broblem alluogi'r croesawydd i gynnig apwyntiad mwy addas.

Ar gyfer apwyntiadau brys, dylech ffonio gynted â phosibl ar ôl 8.00am a byddwch yn derbyn amser i ddod i weld y "Meddyg ar Ddyletswydd" neu'r ymarferydd nyrsio, ble byddwch yn gorfod aros efallai. Ar gyfer achosion brys, byddwn bob amser yn eich gweld ar yr un diwrnod ond ni allwn warantu pwy fyddwch yn ei weld.

Ymweliadau â'r Cartref
Gwasanaeth a gynigir i gleifion sy'n gaeth i'r cartref neu'n methu symud. Os byddwch yn methu symud neu'n rhy sâl i ddod i'r feddygfa gallwch ofyn am ymweliad â'r cartref. Dylech ffonio cyn 11am er mwyn blaenoriaethu eich galwad i asesu'r angen am ymweliad â'r cartref. Cofiwch y gall y meddyg weld sawl claf yn y feddygfa yn yr amser mae'n gymryd i ymweld â chlaf yn y cartref.

Trefniadau Allan o Oriau
Os byddwch angen gweld meddyg mewn argyfwng rhwng 6.30pm ac 8.00am, gallwch gysylltu â NEWDOC (a gomisiynir gan BILl Wrecsam) drwy ffonio 01244 834999. Sylwer fod y Feddygfa wedi rhoi caniatâd i NEWDOC weld canlyniadau profion gwaed cleifion allan o oriau.

Neu, os byddwch ond angen cyngor, gallwch gysylltu â llinell gymorth Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 (manylion pellach ar gefn y clawr).

Argyfyngau
Os bydd gennych broblem ddifrifol fel poen ddifrifol yn y frest; gwaedu difrifol, disgyn neu'n anymwybodol, ffoniwch 999 a gofynnwch am ambiwlans. Ar gyfer argyfwng llai brys, cynigir llinell ffôn arall ar gyfer GALWADAU BRYS YN UNIG yn ystod oriau arferol y feddygfa, y rhif yw 350791.

Cyngor a Gwybodaeth Dros y Ffôn
Gall claf sy'n dymuno siarad gyda meddyg teulu neu nyrs y feddygfa ffonio rhwng 8.30am a 6.00pm. Bydd y croesawydd yn cymryd enw'r galwr a'i drosglwyddo i glinigydd perthnasol a fydd yn ceisio dychwelyd yr alwad gynted ag y gellir ar ddiwedd y sesiynau yn y feddygfa. Ni allwn dorri ar draws ymgynghoriad, oni bai ei fod yn argyfwng.

Canlyniadau Profion
Ffoniwch ar ôl 11am ar gyfer canlyniadau profion; ni allwn gael mynediad i brofion tan hynny. Gofynnwch i bwy bynnag sy'n cymryd y prawf pryd ddylech chi ffonio ar gyfer y canlyniad, gan y gall hyn gymryd mwy nag y rhagwelwyd.

Samplau
Dylech ddod â gwaed, sampl wrin ayyb i'r dderbynfa yn y cynwysyddion cywir, sydd ar gael yn y dderbynfa, cyn 1pm dydd Llun - dydd Gwener er mwyn i'r Ysbyty ei gasglu a'i cludo i'r Labordy. Sicrhewch fod y sampl wedi'i labelu'n gywir. Neu, gallwch fynd â'r sampl i'r lab path eich hun.

Ail Bresgripsiynau
Nid ydym yn derbyn ceisiadau am ail bresgripsiwn dros y ffôn, gan ei fod yn gorlenwi'r system. Gall cleifion archebu trwy gwblhau'r slip atodedig gyda'r presgripsiwn diwethaf. Rhowch ✓ ger yr eitemau angenrheidiol o leiaf 3-4 diwrnod cyn y dyddiad y byddwch eu hangen, a galwch i mewn neu postiwch i'r Adran Bresgripsiwn yn y feddygfa. Gallwn dderbyn ceisiadau am ail bresgripsiwn ar y wefan hefyd.
Caniatewch o leiaf 48 awr cyn casglu'r presgripsiwn neu dewiswch fferyllfa ble dymunwch gasglu'r presgripsiwn a gwnawn ei drosglwyddo yno.

Presgripsiynau Brys
Ni fydd y Meddygon yn cyflwyno presgripsiynau brys ar gyfer gwrthfiotigau mwyach heb eich gweld. Mae mân salwch yn bethau cyffredin, fel annwyd, dolur rhydd, llindag, llau'r pen, dolur gwddf y gellir eu trin gyda meddyginiaeth dros y cownter o'r fferyllfa. Trwy ffonio'r feddygfa yn ystod oriau gwaith, gall y Croesawydd eich cynghori pa un a ydych angen gweld y Meddyg ai peidio.

Gweinyddu Cyffredinol
Er mwyn diweddaru eich cofnodion meddygol, rydym angen gwybod os byddwch yn newid eich enw, cyfeiriad neu unrhyw fanylion personol, fel y gallwn ddiweddaru eich cofnodion. Gall methiant i hysbysu am unrhyw newidiadau arwain at eich tynnu oddi ar ein rhestr gan fod post heb ei gludo yn cael ei ddychwelyd. Dylai cleifion sy'n dymuno gweld eu cofnodion meddygol gyflwyno cais ysgrifenedig i Reolwr y Feddygfa.

CLINIGAU

CLINIG CYN-GENI
Dydd Iau 1.30-2.30pm – Bydwraig

CLINIG BABANOD
Dydd Llun: Imiwneiddiad trwy apwyntiad yn unig 10.30am – 12.30pm
Dydd Llun: Pwyso babi trwy apwyntiad yn unig 10.30am – 12.30pm
Archwiliadau datblygu gyda Dr Baker neu Dr Dawson

CLINIG MÂN SALWCH
Trwy apwyntiad gyda'r Ymarferydd Nyrsio

CLINIG MÂN LAWFEDDYGAETH
Dydd Mawrth 2pm – 3.30pm Dr Baker neu Dr Henry
Clinig Dafaden unwaith y mis

CLINIG FFLEBOTOMI
Dyddiol 8.30am – 1.00pm Trwy apwyntiad

CLINIG ÔL-ENI
Dydd Llun 2pm – 2.30pm Dr Oliver trwy wahoddiad

Sesiynau Triniaeth – Hybu Iechyd
a Rheoli Afiechyd
Trwy apwyntiad gyda Nyrs yr Ystafell Driniaeth
(gweler adran nyrs y feddygfa ar gyfer manylion pellach)

ARCHWILIAD PERSON IACH
Gyda Nyrs yr Ystafell Driniaeth

CLINIG MERCHED IACH
Dydd Llun 12.30pm – 1.30pm Dr Oliver a Nyrsys y Feddygfa

ORIAU'R FEDDYGFA

Mae'r Feddygfa yn agored rhwng 8am a 6.30pm dydd Llun i ddydd Gwener (heblaw Gŵyl y Banc a phnawn PDP)

Os byddwch angen gweld Meddyg mewn Argyfwng rhwng 6.30pm ac 8.00am, gallwch gysylltu â NEWDOC (a gomisiynir gan BILl Wrecsam), ffôn 01244 834999. Sylwer fod y feddygfa wedi rhoi caniatâd i NEWDOC gael mynediad i brofion prawf gwaed cleifion allan o oriau.

Yn achlysurol, mae oriau'r feddygfa'n newid o ganlyniad i absenoldeb cydweithwyr yn ystod salwch, astudio neu wyliau. Bydd y Feddygfa'n defnyddio locymau cymwys ar gyfer sesiynau os bydd angen.

Yn ogystal, mae'r feddygfa wedi ymuno â Rhaglen Datblygu Meddygfa a gefnogir gan Fwrdd Iechyd Lleol Wrecsam. Mae'n rhaglen ble amddiffynnir amser i alluogi'r feddygfa i gau hanner diwrnod y mis rhwng 1.30pm a 6.30pm ar gyfer materion datblygu'r feddygfa.
Gobeithio y byddwch yn cytuno bod hon yn rhaglen bwysig sy'n anelu i wella gofal cleifion.
Hysbysebir dyddiadau pan fydd y feddygfa ynghau ar gyfer sesiynau datblygu ymlaen llaw yn y feddygfa ac ar y wefan.

CWYNION AC AWGRYMIADAU
Mae'r feddygfa'n gweithredu gweithdrefn gwynion, os bydd gennych unrhyw gwynion, sylwadau neu awgrymiadau am unrhyw agwedd o'r Feddygfa, gallwch gysylltu â Rheolwr y Feddygfa.
Manylion llawn ar gael yn nhaflen Gwynion y Feddygfa sydd ar gael yn y dderbynfa neu ar wefan y feddygfa
www.strathmoremedicalpractice.org.uk
Os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon sy'n ymwneud â gwasanaethau meddygol cychwynnol yn yr ardal, gallwch gael gwybodaeth bellach trwy gysylltu â:

Rheolwr y Feddygfa
Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam
Parc Technoleg Wrecsam
Lôn Rhyd Broughton
Wrecsam
LL13 7YP
Ffôn: 01978 346500

HAWLIAU A CHYFRIFOLDEBAU CLEIFION

- Cynhelir eich cofnodion meddygol yn gwbl gyfrinachol. Ni throsglwyddir unrhyw wybodaeth heb eich caniatâd oni bai ei fod o fewn cyfyngiadau'r GIG, trwy fframwaith cyfreithiol neu er lles y cyhoedd. Rhennir rhywfaint o ddata cleifion dienw ar gyfer iechyd y cyhoedd ac archwilio, ymchwil, dysgu a hyfforddi. Gallwch weld eich cofnodion, a gynhelir yn gyfrinachol, yn amodol ar gyfyngiadau yn y gyfraith. Os hoffech weld eich cofnodion, gallwch ymgeisio yn ysgrifenedig i'r rheolwr meddygfa.
- Byddwch yn cael eich trin fel unigolyn ac yn cael eich trin gyda chwrteisi a pharch bob amser, beth bynnag eich rhyw, tarddiad ethnig, crefydd, rhywioldeb neu natur eich problemau iechyd. Gofynnwn i chi drin y meddygon a staff y feddygfa gyda chwrteisi a pharch hefyd a dylech ystyried cleifion eraill trwy wneud defnydd cyfrifol o'n gwasanaeth i chi.
- Ni ddarperir gofal na thriniaeth heb eich caniatâd hysbys.
- Gadewch i ni wybod gynted â phosibl os byddwch yn newid eich enw, cyfeiriad neu rif ffôn.
- Er lles eich iechyd, mae'n bwysig i chi ddeall yr holl wybodaeth a roddir i chi. Gofynnwch os na fyddwch yn siŵr o unrhyw beth.
- Cofiwch eich bod yn gyfrifol am eich iechyd eich hun ac iechyd eich plant.
- Gallwch ein helpu trwy fod yn brydlon ar gyfer apwyntiad a gadael i ni wybod ymlaen llaw os na fyddwch yn gallu cadw at apwyntiad.

MAES PARCIO

Sylwer bod y maes parcio yn y feddygfa yn gyfyng. Mae gan gleifion hawl parcio tra'n mynychu apwyntiadau neu'n casglu o'r fferyllfa. Gall cerbydau sy'n cael eu parcio am resymau eraill gael eu clampio



MEDDYGFA STRATHMORE FFINIAU

NHS Direct Wales
0845 46 47
Galw IECHYD Cymru

Mae Galw Iechyd Cymru yn llinell gymorth gyfrinachol 24 awr sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth ar:

- beth i'w wneud os byddwch yn teimlo'n sâl
- pryderon iechyd i chi a'ch teulu
- gwasanaethau iechyd lleol
- gwasanaethau cefnogi a hunangymorth
- mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn eich dewis iaith
- codir ffi am daliadau ar raddfa leol
- cofnodir pob galwad er lles diogelwch y galwyr

www.nhsdirect.wales.nhs.uk